**Pleidleisiau a Thrafodion ar gyfer dydd Mercher, 10 Mawrth**

**Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm**

**2.00pm**
**Cwestiynau Cyllid i Sue Essex, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**
Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf.

**2.26pm**
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad**
Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 3 yn ol.

**2.56pm**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig: Diogelwch ar y Ffyrdd**
*NDM1857 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

O dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 2) (Cymru) 2004 ar Ddiogelwch ar y Ffyrdd, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Ebrill 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.18pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau'r Diwydiant Dwr (Amodau Rhagnodedig) (Ymgymerwyr sy'n Llwyr neu'n Bennaf yng Nghymru) 2004 o dan Reol Sefydlog 23 (adran 1)**
*NDM1858 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau'r Diwydiant Dwr (Amodau Rhagnodedig) (Ymgymerwyr sy'n Llwyr neu'n Bennaf yng Nghymru) 2004, y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Gorchymyn**
O blaid 54; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd egwyddor y gorchymyn**

*NDM1859 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2004 mewn perthynas â'r Gorchymyn drafft, Rheoliadau'r Diwydiant Dwr (Amodau Rhagnodedig) (Ymgymerwyr sy'n Llwyr neu'n Bennaf yng Nghymru) 2004;

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Diwydiant Dwr (Amodau Rhagnodedig) (Ymgymerwyr sy'n Llwyr neu'n Bennaf yng Nghymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol â:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004.

**Cynhaliwydpleidlais ar y Rheoliadau**
O blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**3.21pm**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Masnachu Gwastraff ac Allyriadau 2003**
**NDM1860 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol sydd yn Neddf Gwastraff a Masnachu Allyriadau 2003, i Brif Weinidog Cymru, heblaw am y rhai hynny na ellir eu dirprwyo yn gyfreithiol.

*Ni fydd unrhyw beth yn y cynnig hwn yn golygu y caiff goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn na rôl Pwyllgorau'r Cynulliad o ran gweithredu'r swyddogaethau uchod eu lleihau.*

*Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.24pm**
***Ni chynhaliwyd dadl ar y cynnig hwn, a chynhaliwyd pleidlais arno’n syth***
**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 22.25**
*NDM1861 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2004 ar y rheoliadau drafft **Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2004;** a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2004 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004; a

ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004.

2.
a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mawrth 2004 ar y gorchymyn drafft, **Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Cymdeithasol o dan Hyfforddiant) (Cofrestru) 2004** a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Cymdeithasol o dan Hyfforddiant) (Cofrestru) 2004 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004; a

ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Chwefror 2004.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.25pm**
**Dadl ar Ddatganoli'r Gwasanaeth Tân**
*NDM1862 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r cynigion yn y Mesur Gwasanaethau Tân ac Achub i ddatganoli'r cyfrifoldeb dros y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru i'r Cynulliad;

2. Yn nodi cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer datganoli'r cyfrifoldeb a'r cyfnod ar ôl ei ddatganoli fel y nodwyd yn y datganiad a wnaeth y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio i'r Pwyllgor ar y mater ym mis Medi 2003;

3. Yn cytuno bod angen rhoi mwy o bwyslais ar atal tân ac ymyrryd yn effeithiol, gan greu gwasanaeth sy'n ateb y gofynion newydd sy'n ei wynebu yn y 21ain ganrif; a

4. Yn cefnogi'r pwyslais ar hybu diogelwch cymunedol yn unol â dull gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru o ddatblygu cymunedau cryfach a mwy diogel.

**3.31pm - 3.42pm**
**Aeth Alun Ffred Jones i'r Gadair yn unol â Rheol Sefydlog 1.10a**

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu fel Pwynt 1 newydd ac ailrifo'r pwyntiau dilynol fel y bo'n briodol:

'Yn cydnabod y newid o ran teitl i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.'

**Gwelliant 2**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:

Yn galw ar Lywodraeth Lafur y Cynulliad i wrthwynebu unrhyw ymdrech i leihau darpariaeth dros nos gwasanaethau tân ac achub Cymru a fyddai'n deillio o argymhellion Adolygiad Bain

**Gwelliant 3**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod yr angen i gadw strwythur integredig o fewn y DU i gynnal y gallu i ymateb i ddamweiniau neu derfysgaeth ar raddfa fawr.'

**Gwelliant 4**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i sefydlu Corff Adolygu Tâl ac Amodau Statudol i Gymru.'

**Gwelliant 5**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cyfarwyddo'r Gweinidog i drafod tynnu'r 'hawl i streicio' yn ôl ar gyfer y gwasanaeth allweddol hwn â Llywodraeth San Steffan.'

**Gwelliant 6**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod y ffaith y cwtogwyd nifer brigadau tân Cymru i dair ym 1996 yn cyfyngu ar bosibilrwydd gwneud arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 45; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 16; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 11; Ymatal 9; Yn erbyn 36; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 45; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**
O blaid 14; Ymatal 0; Yn erbyn 41; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.28pm**
**Dadl ar yr Adroddiad am y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ac ar Ddiwygiadau i'r Cynllun**
*NDM1863 Karen Sinclair (De Clwyd)*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad blynyddol y Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol ar gyfer 2002-2003 yn unol â Rhan II, Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1998 (y Ddeddf) a Rheol Sefydlog 6.5 (ix).

2. Yn cymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Cynllun yn unol â Rhan II, Atodlen 11 o'r Ddeddf.

*Gosodwyd yr adroddiad blynyddol a'r Cynllun diwygiedig yn y Swyddfa Gyflwyno ac anfonwyd copi ohonynt mewn e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 3 Mawrth 2004.*

**4.29pm - 4.45pm**
**Aeth Peter Black i’r Gadair yn unol â Rheol Sefydlog 1.10a**

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**Gwelliant 1**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru) *TYNNWYD YNOL***

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn nodi’r niwed a wnaethpwyd i’r gwaith partneriaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a’r Awdurdodau Lleol yn sgil tuedd gynyddol y Llywodraeth i glustnodi cymorth ariannol i Lywodraeth Leol.’

**Gwelliant 2**

**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn nodi’r niwed a wnaethpwyd i’r gwaith partneriaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a’r Awdurdodau Lleol yn sgil cynllun y Llywodraeth i gyflwyno Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol) (Dyfarndaliadau am Wasanaeth a Roddwyd) (Cymru) 2003.’

**Gwelliant 3**
**Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn nodi’r niwed a wnaethpwyd i’r gwaith partneriaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a’r Awdurdodau Lleol yn sgil methiant Llywodraeth y Cynulliad i ganiatáu’n llawn ar gyfer canlyniadau ariannol ei mentrau ei hunan ac effaith hynny ar filiau’r Dreth Gyngor.’

**Gwelliant 4**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

‘Yn mynegi pryder bod Llywodraeth Cynulliad Cymru, er gwaetha’r Cynllun Partneriaeth Llywodraeth Leol, yn methu â darparu cyllid llawn i Lywodraeth Leol er mwyn rhoi ar waith gytundebau a mentrau cenedlaethol.’

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Tynnwyd Gwelliant 1 yn ôl.**

**Gwelliant 2**
O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O blaid 23; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 53
**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 52; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.02pm**
**Dadl fer - NDM1856 Huw Lewis (Merthyr Tudful a Rhymni);** Mentergarwch, Grymuso ac Atebolrwydd: Y Maniffesto Cydweithredol ar gyfer Cymru.

**Bydd y cyfarfod wedi gorffen erbyn 5.30pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 9 Mawrth 2004

- Gorchymyn Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2004 - LD2767
- Rheoliadau Cymorth Gwladol (Asesu Adnoddau) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2768
- Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Cymru) 2004 - LD2769
- Gorchymyn Moch (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2004 - LD2770
- Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2771

### Dogfennau a Osodwyd ar 8 Mawrth 2004

- Adroddiad gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad ar Reoliadau'r Cynllun Lwfansau Tirlenwi (Cymru) 2004 - LD2759
- Cyfrifon Cryno GIG Cymru 2002-03 - LD2758

### Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 09 Mawrth 2004

- LC853 Rheoliadau Addysg (Trefniadau Ymsefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2760
- LC852 Gorchymyn Diddymu Cyngor Ymgynghorol Llyfrgelloedd (Cymru) a Diwygiadau Canlyniadol 2004 - LD2761
- LC854 Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned 2004 - LD2762
- LC855 Gorchymyn Awdurdod Datblygu Cymru (Tir Diffaith) 2004 - LD2763

- LC841 Rheoliadau Mynediad i Gerbydau Ar Draws Tir Comin a Thir Arall (Cymru) 2004 (ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd) - LD2764
- LC849 Rheoliadau Bwyd (Tsilis Poeth a Chynhyrchion Tsilis Poeth) (Rheolaeth Frys) (Diwygio)(Cymru) 2004 - LD2765
- LC856 Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2004 - LD2766

**Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 02 Mawrth 2004**

- LC843 - Rheoliadau Addysg (Arolygu Ysgolion) (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2724
- LC844 - Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Diwygio) (Cymru) 2004 - LD2725
- LC845 - Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin nad ydynt yn rhai IACS (Apelau) (Cymru) 2004 - LD2726
- LC846 - Rheoliadau Archwilio Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid Cymru 2004 - LD2727
- LC847 - Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") (Cymru) 2004 - LD2728
- LC848 - Gorchymyn Cyngor Gofal Cymru (Pennu Gweithwyr Cymdeithasol o dan Hyfforddiant) (Cofrestru) 2004 - LD2729